TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 18 Awst 2021

## Cais Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r cais Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a'n polisi mynediad at wybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

> *"Rwy'n anfon y cais hwn o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol i ofyn am y wybodaeth ganlynol:*
>
> *Ar gyfer pob un o'ch mathau o gerbydau trên, y data diweddaraf sydd ar gael ar fesuriadau o ansawdd aer a llygredd mewn cerbydau, gan gynnwys crynodiadau o NO2, SO2, CO2, a gronynnau."*

**Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

Ein Fflyd Newydd

Mae'r trenau canlynol wedi cael eu prynu gan TrC ac yn cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd:

- Trên Tram City Link Class 398
- Class 231
- Class 756

Nid oes data ar gael ar hyn o bryd o ran mesuriadau o ansawdd aer a llygredd yng ngherbydau'r trenau hyn, gan fod rhain yn fodelau newydd gan y gwneuthurwr ac yn dal i gael eu cynhyrchu. Mae'n werth nodi nad oes injan tanio mewnol wedi'i hymgorffori yn nyluniad Trên Tram City Link Class 398, sy'n golygu y byddai'r rhan fwyaf o'r llygredd yn dod o'r amgylchedd allanol; tra bo system aerdymheru y Class 231 a 756 yn cydymffurfio â safonau'r TSI y maent yn cael eu hadeiladu iddynt, er bod ganddynt beiriannau disel.

Ein fflyd bresennol:

Nid yw TrC yn monitro ansawdd aer a llygredd mewn cerbydau, ac nid yw'r wybodaeth hon ganddynt. Ar ôl cael eich cais, ymgysylltodd cydweithwyr TrC â gweithgynhyrchwyr ein fflyd bresennol (sef LHGS, CAT, Angel a Porterbrook), sydd hefyd wedi dweud nad yw'r wybodaeth hon ganddynt. Mae'r Bwrdd Diogelwch a Safonau Rheilffyrdd yn cynnal prosiect ymchwil parhaus ar hyn o bryd ar draws sbectrwm eang o fflydoedd ledled y DU, er ei bod yn bosibl na fydd yr ymchwil hwn yn ystyried pob model o drên sy'n cael ei weithredu gan TrC. Mae rhagor o wybodaeth am waith RSSB ynghylch ansawdd aer ar gael yma.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".